**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**6 GORFFENNAF 2016**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Busnes a Chyllid |
| **Pwnc:** | Calendr Cyfarfodydd |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar y rhaglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1 cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Cynigir dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2016/17 fel Atodiad A

3.2 Pe byddai angen gwneud newidiadau i'r calendr, cynigir bod y Cadeirydd yn cael ei awdurdodi i wneud newidiadau yn dilyn ymgynghori priodol.

3.3 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Cymeradwyo'r cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad A.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effeithiau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghoriad yr ymgymerwyd â fo**

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi cyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

**9.0 Atodiadau**

**Atodiad 1** Dyddiadau arfaethedig i'w cytuno a'u mabwysiadu:

| CYFARFOD | DYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD |
|---|---|---|---|
| Cyd-bwyllgor GwE | 22/09/2016 | 9.00am | Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-bwyllgor GwE | 25/11/2016 | 9.00am | Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-bwyllgor GwE | 08/03/2017 | 9.00am | Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd Cydbwyllgor GwE, fel y'u cynigir yma, yn addas i bwrpas. Yn benodol, bydd 22 Medi 2016 yn amserol ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2015/16, sy'n statudol orfodol cyn 30 Medi. Bydd angen cyfarfod Cydbwyllgor arall yn fuan ym mis Gorffennaf 2017, ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2016/17.